**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Dr Goodall

**Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2019 a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 6 Ionawr.

Er bod yr Aelodau wedi nodi y byddwch yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y broses benodi ar gyfer y Prif Swyddog Digidol, maent wedi gofyn i adroddiad cynnydd gael ei anfon ar ôl i chi gael y llythyr hwn. Maent am i'r ymateb hwnnw gynnwys manylion am sut mae rolau'r Prif Swyddog Digidol, y Prif Swyddog Gwybodaeth a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol yn cyd-fynd â'i gilydd ac, er budd gwerth am arian i'r trethdalwr, tystiolaeth glir nad oes unrhyw ddyblygu rhwng y rolau hyn. Hoffwn hefyd weld amserlen ar gyfer y gwaith o hwyluso'r penodiad.

Rwyf hefyd yn ymwybodol, yn dilyn y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2019, fod Andrew Griffiths wedi cyhoeddi ei fod yn camu i lawr o'i rôl yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar 5 Tachwedd. Byddwn wedi disgwyl i'r Pwyllgor fod wedi cael gwybod am hyn.


Yn ogystal, wrth nodi'r esboniad am faterion a all ddigwydd i gleifion pan fydd dwy feddygfa sy'n defnyddio gwahanol systemau clinigol yn uno, o dan GDPR, byddwn wedi tybio bod yr un trefniadau diogelwch yn berthnasol, ac rwy'n croesawu'r ffaith eich bod wedi gofyn i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru edrych

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

ar sut y gellir gwneud y broses hon yn haws i gleifion. Byddwn yn croesawu eglurhad pellach ynghylch y mater.

Yn gywir,



**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**